Datganiad Cyflogaeth Foesegol

Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflenwi contractau i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi eu cyflogi yn foesegol ac mewn modd sy'n cydymffurfio â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU, a deddfau rhyngwladol.

Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth fel caethwasiaeth fodern, sathru ar hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél, contractau dim oriau a thalu'r cyflog byw. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gyflawnir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn modd moesegol.


Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi yr ydym yn prynu ein gwasanaethau a'n nwyddau trwyddynt yn cael eu trin yn deg. Ymrwymwyd i'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu i fonitro ein cynnydd. Penodwyd ein Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TiSC) yn gronfa ddata ganolog sy'n rhoi mynediad i Ddatganiadau Caethwasiaeth Fodern a bostiwyd gan gyflenwyr. Defnyddir y Datganiadau hyn yn ystod prosesau tendro, fel rhan o Ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol. Mae'r wefan yn galluogi PCGC i ddatgan ein gwrthwynebiad I gaethwasiaeth a pholisïau cysylltiedig yn gyhoeddus. Mae'r wefan wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi. Hyd yma, mae PCGC wedi:

- Gwreiddio'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn gweithdrefnau gweithredu safonol
- Wedi darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â phrynu/caffael ar gaethwasiaeth fodern, arferion cyflogaeth moesegol.
- Alinio'r Cod Ymarfer yn ein Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy ehangach.
- Dod yn llofnodwr i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi a chyhoeddi Datganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC.
- Anogwyd cyflenwyr i ymrwymo i ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC) i roi cyhoeddusrwydd i'w hymrwymiad a'u datganiadau am Gaethwasiaeth Fodern/Cyflogaeth Foesegol.
- Ymgysylltu â chydweithwyr ehangach yn GIG yr Alban, GIG Gogledd Iwerddon, a GIG Lloegr i barhau i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, yn ei ddisgwyl. I gefnogi'r gwaith hwn, mae PCGC yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gyfrannu at ddatblygu safonau moesegol gwell. Wrth baratoi ar gyfer y Cod diwygiedig, rydym yn ailystyried ein hymrwymiadau. Gallai hyn gynnwys gwahanu ymrwymiadau cyflogaeth fewnol a chyflogaeth yn y gadwyn gyflenwi, ystyried Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw ac integreiddio'r ymrwymiadau hyn mewn polisi ehangach. Yn ogystal, wrth edrych tua'r dyfodol, bydd PCGC yn mabwysiadu'r gyfres o fetrigau caffael i fonitro cynnydd ac effaith, yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae'r camau gweithredu hyn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i arferion caffael moesegol, tryloyw, cymdeithasol gyfrifol a chynaliadwy.

Llofnod:



Mr Gareth Hardacre Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol a Chyflogaeth Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Ebrill 2026